



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gymuned Cwm y Glo**

**Cwm y Glo  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 4DE**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Prydwen Elfed-Owens**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol hon yn cael ei chynnal gan Awdurdod Unedig (AU) Gwynedd. Mae'n gwasanaethu pentref Cwm y Glo a'r ardal o'i gwmpas, er y daw oddeutu 25 o'r disgyblion o du allan i ddalgylch naturiol yr ysgol. Mae 59 o ddisgyblion amser-llawn yn yr ysgol [pedair i 11 oed]. Mae'r rhif hwn yn gymharol gyson ers tair blynedd.

Disgrifia datganiad hunanarfarnu'r ysgol yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Pump y cant o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol rhad ac am ddim. Mae'r canran hwn yn gyson yn ystod ers y 12 mis diwethaf. Ar hyn o bryd, mae chwech o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae un ohonynt ar ddatganiad o AAA. Daw oddeutu 67% y disgyblion o gartrefi Cymraeg. Noda'r ysgol fod oddeutu 59% y cant o boblogaeth yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg, 25% yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl a 16% ddim yn gallu siarad Cymraeg pan ddont i'r ysgol yn gyntaf.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Nid oes un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer yr ysgol yw £2,828, sy'n cymharu ag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yn awdurdod Gwynedd. Gan yr ysgol mae'r pedwerydd cyllideb isaf fesul disgybl o'r 103 ysgol gynradd yn awdurdod Gwynedd.

Penodwyd y pennaeth presennol yn 2009.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2004.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Rhagorol</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- cynnydd yn ansawdd canlyniadau cyfnod allweddol 1(CA1) a chyfnod allweddol 2 (CA2);
- arweiniad a gweledigaeth y pennaeth;
- Cyfundrefn hunanarfarnu cadarn, a
- lles a gofal am ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- ymrwymiad y pennaeth i a pherchnogaeth y llywodraethwyr a'r staff ar effeithiolrwydd eu cyfundrefn hunanarfarnu;
- Yr ystyriaeth ragorol a roddir i farn y disgyblion, a'r
- deilliannau cadarnhaol iawn o fewn blwyddyn yn unig yn dilyn sefydlu trefn newydd hunan arfarnu'r ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i'r ysgol:

- A1. Godi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith;
- A2. Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial;
- A3. Sicrhau dealltwriaeth rhieni o sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynorthwyo dysgu disgyblion ac, ar yr un pryd, yn eu cynnwys yn y broses o osod targedau unigol i'w plant i hybu cynnydd;
- A4. Barhau i ddatblygu trefn tracio cynnydd disgyblion drwy'r ysgol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yn CA1 a CA2, yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yn erbyn y prif ddangosyddion ar gyfer y cyfnodau allweddol yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg yn ogystal ag â'u cyrhaeddiad blaenorol.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r canlyniadau yn debyg i neu'n uwch na rhai ysgolion sydd yn yr un teulu<sup>1</sup>.

Yn CA1, yn 2010, roedd cyrhaeddiad disgyblion saith oed yn arwyddocaol uwch na'r teulu, y dalgylch a'r sir mewn gwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg a mathemateg.

Yn CA2, yn 2010, ar gyfer disgyblion 11 oed, cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 6 lefel pedwar neu uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Saesneg, mae'r canran sydd yn cyrraedd lefel pump yn uwch na gweddill y dalgylch a'r teulu, ac yn sylweddol uwch na'r sir.

Mewn mathemateg, mae'r canlyniadau'n debyg i rai y dalgylch a'r sir. Yn y Gymraeg, mae canlyniadau'r ysgol yn sylweddol well na'r dalgylch a'r sir. Mae perfformiad y rhai nad ydynt yn siarad y Gymraeg gartref yn effeithio ar eu gallu i gyrraedd lefel sydd un lefel yn uwch na'r lefel disgwylidig yn y pwnc hwn. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llafar yn y ddwy iaith yn rhagorol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau darllen a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda a'u medrau ysgrifennu yn ddigonol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys disgyblion sydd ag AAA a'r rhai sydd yn cael cinio am ddim. Nid yw llawer o'r disgyblion mwyaf abl a thalentog yn llwyr gyrraedd eu potensial. Yn CA1 a CA2, mae cysondeb ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.

#### Lles: Da

Mae lles disgyblion yr ysgol yn dda. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae safonau ymddygiad yn dda ac mae'r disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais yn ystod y gwersi, wrth deithio o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser egwyl.

---

<sup>1</sup> Creuwyd teuluoedd o ysgolion er mwyn caniatáu i ysgolion gymharu eu perfformiad gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC) yn dosbarthu ysgolion i deuluoedd yn ôl cyfuniad o nodweddion, sef ysgolion gyda chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i bryd am ddim, canran y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cadw'n iach ac mae'r cyngor ysgol wedi rhannu y cynllun bwyta'n iach gyda'r llywodraethwyr a'r rhieni.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyfrannu i'r cynlluniau gwaith ac yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu.

Lefel presenoldeb yr ysgol yw 95.9% ac mae hyn yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg yng Nghymru ac yn yr AU.

Mae disgyblion CA2 yn cael eu cynrychioli'n dda gan y Cyngor Ysgol ac mae'r aelodau yn deall eu rôl yn dda.

Cynigir cyfleoedd digonol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion i baratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn dangos parch, gofal a chonsyrn yn eu perthynas â'i gilydd ac yn cyd-dynnu'n dda iawn gyda'u hathrawon ac aelodau eraill o'r staff.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r mwyafrif o'r athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu ysgogol i fodloni anghenion llawer o'r disgyblion. Paratwir y disgyblion yn dda ar gyfer dod yn aelodau cyfrifol o'r gymuned.

Caiff llawer o'r gwersi eu cynllunio'n dda, gan ddefnyddio ystod o weithgareddau diddorol. Mae cynlluniau gwersi unigol llawer o'r athrawon wedi'u diffinio'n glir ar gyfer datblygu cyfathrebu a rhifedd. Anwastad, hyd yma, yw effaith diwygio cynlluniau ar gyfer Cwricwlwm 2008 a'r Cyfnod Sylfaen.

Caiff yr ardal leol a'i phobl eu defnyddio'n effeithiol iawn i ddarparu gweithgareddau dysgu cyfoethog sy'n galluogi'r disgyblion i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r amgylchedd a hanes yr ardal. Rhoddir sylw rhagorol i'r Cwricwlwm Cymreig.

Mae pob un o'r athrawon yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Derbyniodd yr ysgol wobwr efydd y Cynllun Ecosgolion, ac mae'n hyrwyddo cynlluniau fel ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach, yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda. Mae mwyafrif yr athrawon yn cymell diddordeb disgyblion yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o'r athrawon a'r staff cefnogi wybodaeth bynciol gyfredol dda. Maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau a gweithgareddau i sbarduno diddordeb a datblygiad y disgyblion. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys TGCH i wella'r dysgu.

Lle mae'r addysgu'n dda, mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent yn ysgogi disgyblion yn effeithiol ac mae cyflymder da i'r gwersi. Yn y sesiynau lle mae'r addysgu'n ddigonol neu'n is, mae'r cyflwyniadau yn rhy hir ac nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon strwythuredig i hybu a herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae bron bob un o'r athrawon yn gosod nodau clir i'r tasgau. Mae'r mwyafrif yn annog disgyblion i lunio meini prawf llwyddiant i'w hybu i werthuso a gwella ansawdd eu gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau digonol ar gyfer asesu cynnydd disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio'u hasesiadau ynghyd â hunan werthusiadau'r disgyblion i greu targedau unigol da i ddisgyblion. Nid yw'r broses wedi gwreiddio'n ddigonol yn y dosbarthiadau lle mae staff a disgyblion yn cyfnewid yn rhy aml yn ystod yr wythnos.

Mae adroddiadau i rieni yn ddigonol. Ni chynigir cyfleoedd digonol i rieni a disgyblion i ymateb iddynt.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgarg sydd â disgwyliaid a rheolau clir. Mae defnydd amser cylch yn rhagorol i hyrwyddo medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

Mae gwybodaeth i rieni yn dda. Mae cylchlythyrau rheolaidd ar eu cyfer. Cynhelir dwy noson ffurfiol i rheini ac athrawon yn flynyddol ac maent yn paratoi adroddiadau manwl ar gynnydd disgyblion ar ddiwedd tymor yr haf. Fodd bynnag, nid ddarperir digon o wybodaeth i rieni ar sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn hybu dysgu disgyblion na chwaith ar sut mae targedau unigol y disgyblion yn gallu effeithio cynnydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag AAA yn dda. Maent yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau unigol. Nid yw'r disgyblion mwy abl a thalentog yn derbyn sylw digonol er mwyn diwallu eu hanghenion hwy.

Mae gan yr ysgol bolisi a systemau priodol ar gyfer diogelu disgyblion. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, iechyd a lles disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn gwbl gynhwysol ac mae'n trin pob disgybl yn gyfartal.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae yn yr ysgol ethos cartrefol a chynhwysol, ymddygiad da, a gofal rhagorol am ddisgyblion. Sicreir cyfle cyfartal da i bron bob disgybl, gyda'r cwricwlwm yn gwbl hygyrch. Mae polisiau a strategaethau rhagorol yn eu lle i ddelio â bwlio, ac mae cynllun disgyblu'n gweithio'n dda. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a pharchu amrywiaeth.



Mae'r adnoddau yn ddigonol a chânt eu defnyddio'n gyffredinol dda i gefnogi anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd awyr agored yn amgylcheddau dysgu da, deniadol a symbylus. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned yn ychwanegu at y cwricwlwm ac yn ei gyfoethogi'n rhagorol. Mae'r adeiladau o ansawdd digonol ac maent yn cael eu cynnal yn dda ond mae'r neuadd yn gyfyng ac nid oes cae chwarae na chyfleusterau newid. Mae'r toiledau newydd yn lân ond yn oer.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn rhagorol o ran sicrhau safonau da. Mae ganddo weledigaeth glir iawn. Mae wedi meithrin ymdeimlad cryf iawn o waith tîm ac wedi sicrhau ymrwymiad rhagorol cydweithwyr i'r drefn cynllunio a hunan arfarnu. Cydweithia'r holl staff yn agos â'i gilydd i greu ethos cadarnhaol. Mae swydd-ddisgrifiadau yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r staff. Mae'r athrawon yn rhannu'r cyfrifoldebau am bynciau a meysydd. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i Reoli Perfformiad ac mae'r deilliannau yn bwydo'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY). Mae'r trefniadau datblygiad proffesiynol a sesiynau hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff yn darparu cyfleoedd da i bawb ennill medrau newydd a myfyrion ar arfer dda. Rhoddir sylw da i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau a chydweithiant yn agos gyda'r pennaeth i osod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol. Maent yn gweithredu'n dda fel cyfeillion beirniadol ac yn herio penderfyniadau.

Mae llawer o aelodau'r corff llywodraethol yn arsylwi gwersi fel rhan o drefn yr ysgol i fonitro ac i sicrhau bod y llywodraethwyr yn gallu derbyn tystiolaeth uniongyrchol am gyflawniad disgyblion.

Mae llais y disgyblion yn dylanwadu'n dda iawn ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gyfundrefn hunanarfarnu yn sylfaen gadarn iawn i welliant pellach ac mae ymrwymiad yr ysgol iddi ac i'w deilliannau yn rhagorol; defnyddir ystod dda o dystiolaeth fel rhan o'r broses. Mae rôl a chyfraniad y rhan fwyaf o'r staff i'r broses yn glir iawn. Rhoddir ystyriaeth dda i farn y disgyblion. Mae gwranddo ar farn rhieni yn ddatblygiad diweddar defnyddiol. Mae'r barnau hyn yn gymorth i bennu cryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Maent yn dechrau cael effaith ar ddysgu'r disgyblion, er enghraifft, trwy iddynt gael mwy o lais yn yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae gan yr ysgol drosolwg tair blynedd o'r meysydd y mae wedi'u nodi ar gyfer gwella. Mae'r CDY yn nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella, ac mae cost, amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth wedi'u nodi'n glir.

Mae ymdrech barhaus y pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol i wella ar berfformiad blaenorol yr ysgol yn llwyddo'n arwyddocaol. Er hynny, mae baich addysgu trwm y pennaeth yn golygu ei bod hi'n anodd iddo oruchwylio gweithrediad pob blaenoriaeth.

Gwnaed cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn dechrau manteisio ar gysylltiadau gyda dwy ysgol gynradd leol i rannu profiadau a chyfnewid arferion. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau cyfrannu at gryfhau'r diwylliant o gydweithio rhwng yr ysgolion ar faterion proffesiynol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae perthynas gref iawn â'r rhieni. Mae rhieni yn cyfrannu i weithgareddau chwaraeon er nad ydynt yn llwyr ymwybodol o sut y mae targedau unigol ar gyfer eu plant yn gallu effeithio ar eu cynnydd. Mae cysylltiadau clos hefyd gyda'r gymuned leol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg. Cefnogir yr ysgol yn dda gan wasanaeth addysg yr AU. Mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion yn dda. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei hyrwyddo'n dda trwy gysylltiadau rhyngwladol gweithredol a thrwy astudio gwledydd eraill.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion cynradd ac ysgol uwchradd yr ardal i safoni asesiadau. Rhoddwyd cychwyn da hefyd i weithgareddau cymedroli gwaith disgyblion yn CA2 a CA3. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hyn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol adnoddau digonol. Mae gan yr ysgol staff brwdfrydig sy'n gymwys i addysgu holl agweddau'r cwricwlwm. Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol. Mae rôl y staff cefnogi yn effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn datblygu yn CA2. Mae gwariant yn y CDY yn cael ei nodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer staffio.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian oherwydd y deilliannau mewn asesiadau, ansawdd hunanarfarnu a defnydd priodol o'r arian cymharol fach a ddyrennir a defnydd dros dro o arian wrth gefn.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llanwodd wyth o rieni yr holiadur. At ei gilydd, mae'r rheini yn mynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol. Mae bron bob un yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn mwynhau bod yno ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Roedd llawer o'r farn bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol. Mae bron bob un o'r rhieni o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn hawdd sgwrsio â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae llawer ohonynt o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.

#### **Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llanwodd pob disgybl yn CA2 yr holiaduron. Mae bron bob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu haddysgu'n dda a'u cefnogi'n dda yn yr ysgol. Mae bron bob un o'r farn bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda ond mae lleiafrif yn teimlo nad ydynt yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae ychydig ohonynt o'r farn nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn eu hannog i gadw'n iach a heini.

Mae lleiafrif o'r bechgyn ac ychydig o'r merched o'r farn nad yw disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod amser cinio ac amser chwarae. Mae lleiafrif o'r farn bod ymddygiad disgyblion eraill yn eu hatal rhag gwneud eu gwaith cystal ag y gallant o bryd i'w gilydd.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Dr Prydwen Elfed-Owens	Arolygydd Cofnodol	Safonau; Profiadau Dysgu; Addysgu; Cyd-destun; Adroddiad boddhad rhandeiliaid.
Mr Gareth Wyn Roberts	Arolygydd Tîm	Arweinyddiaeth; Gwella Ansawdd; Gweithio mewn partneriaeth.
Mr Eifion Lloyd Jones	Arolygydd Lleyg	Yr amgylchedd dysgu
Ms Tegwen Ellis	Arolygydd Cymheiriaid	Lles; Gofal, Cymorth ac Arweiniad; Rheoli adnoddau.
Mr Garem Jackson	Enwebai'r Ysgol	

**Contractwr:** Cwmni Cynnal  
Uned Dechnoleg  
Stryd Y Bont  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7HL

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11